Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.03.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## AROLWG: Holiadur Bwletin Cefnogi Busnes Gwynedd

Yn wreiddiol, lansiodd Cyngor Gwynedd y Bwletinau Cefnogi Busnes yma i helpu'r gymuned fusnes i oresgyn effaith y cyfnod clo COVID-19 cyntaf, ond ers hynny mae wedi dod yn rhan bwysig o'n dull o helpu busnesau lleol.

Byddem yn gwerthfawrogi cael eich adborth ar y bwletinau fel y gallwn barhau i'w gwneud yn well, helpwch drwy ateb ychydig o gwestiynau cyflym os gwelwch yn dda, drwy fynd i:

https://bit.ly/ArolwgBwletinCefnogiBusnesGwynedd

# DYSGU: Rhaglen Twf Busnes 20Twenty – Rhaglen ‘Llwybr Carlam’ Lefel 4 CMI mewn Arweinyddiaeth

Mae Prifysgol Bangor yn darparu Rhaglen 20Twenty Llwybr Carlam Lefel 4 Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI), wedi ei ariannu 80%, yn dechrau ar 4 Mai 2022. Mae’n rhedeg am dri mis ac yn cael ei gyflwyno yng Ngwesty Holt Lodge, Wrecsam, a thros Zoom. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://20twentybusinessgrowth.com/cy/

# YMGYNGHORIAD: Ardal Ni 2035 – cyfle i bobl Gwynedd siapio dyfodol eu milltir sgwâr

Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar drigolion y sir i lenwi holiadur “Ardal Ni 2035” er mwyn canfod barn pobl Gwynedd am ddyfodol eu hardal leol. Bydd yr ymatebion yn siapio’r gwaith o flaenoriaethu a datblygu 13 cynllun adfywio lleol unigryw ar gyfer cymunedau Gwynedd dros y 15 mlynedd nesaf. Am fwy o wybodaeth ac i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ewch i:

https://bit.ly/ArdalNi2035Cym

# DIGWYDDIAD: Cyfres Gweminarau am y Weledigaeth Werdd 21-24 Mawrth 2022

Mae Busnes Cymru yn cynnal cyfres o weminarau o 21-24 Mawrth 2022 i gefnogi busnesau Cymru i fod yn ystyriol o’r hinsawdd. Mae’r gyfres Weledigaeth Werdd yn cynnig cyngor ac adnoddau ar gyfer pob busnes, gyda sesiynau arbenigol yn ymdrin â phecynnu gyda phlastig & gweithgynhyrchu, dylunio cynnyrch & arloesedd, mesur effaith & sgiliau cynaliadwyedd a datblygiadau yn y farchnad & datgarboneiddio. Ar gyfer mwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/uchelgais-werdd

## RHWYDWEITHIO: Diwrnod Agored Canolfan Grefft Corris 5 Ebrill 2022

Mae Canolfan Grefft Corris yn trefnu Diwrnod Agored ar 5 Ebrill 2022 ar gyfer busnesau lleol, yn y sectorau llety, lletygarwch a manwerthu, i ddod draw i brofi popeth sydd ar gael yn y Ganolfan – y stiwdios, y profiadau ymarferol, Labrinth y Brenin Arthur, Corris Mine Explorers a Chaffi Y Crochan. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu busnesau i roi gwybod i ymwelwyr i'r ardal am yr hyn sydd gan Ganolfan Grefft Corris i'w gynnig fel cyrchfan. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

shirley@corriscraftcentre.co.uk

## IECHYD a DIOGELWCH: Poster a thaflen iechyd a diogelwch

Os ydych yn cyflogi unrhyw un, rhaid i chi naill ai arddangos y poster cyfraith iechyd a diogelwch lle gall eich gweithwyr ei ddarllen yn hawdd neu roi'r daflen cyfraith iechyd a diogelwch gyfatebol i bob gweithiwr. Gellir prynu posteri A2 ac A3 o wefan yr HSE yn Gymraeg a Saesneg neu gallwch lawrlwytho'r daflen am ddim. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.hse.gov.uk/pubns/books/lawposter.htm

## ARIANNU: Lansio cynllun benthyciadau gwerth £150 miliwn i gefnogi BBAChau arloesol

Mae Llywodraeth y DU wedi lansio cyfres newydd o fenthyciadau gwerth £150 miliwn i gefnogi busnesau bach a chanolig arloesol a sicrhau y gallent gael gafael ar gyllid ar bob cam o'r broses arloesi. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/government-backs-innovative-businesses-with-new-150-million-loan-scheme

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru